

Dyddiad cyhoeddi [Gorffennaf 2013](#)

Gwybodaeth i'r cyhoedd

Ailffurfio esgyrn yr wyneb gan ddefnyddio mewnbaniadau titaniwm a grëwyd yn arbennig (heb eu gorchuddio â meinwe meddal)

*Mae arweiniad
Techlechydd NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ynghylch pryd
a sut y gellir
defnyddio
triniaethau newydd
mewn arfer clinigol.*

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio mewnbaniadau titaniwm a grëwyd yn arbennig (heb eu gorchuddio â meinwe meddal) yn y GIG wrth gynnal triniaethau cymhleth i ailffurfio esgyrn yr wyneb. Mae'n egluro'r canllaw (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Gall ymyriad olygu prawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu dyllu'r croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau'n cwmpasu p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrrff lleol y GIG ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n cynnig gwerth am arian i'r GIG.

Lluniwyd y ddogfen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt i benderfynu a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio'r broses o ailffurfio esgyrn yr wyneb gan ddefnyddio mewnbaniadau titaniwm yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd roi gwybodaeth lawn a chynghori i chi am hynny. Mae'r ddogfen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg er mwyn eich helpu i wneud penderfyniad. Ceir rhai ffynonellau o wybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth o ran pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Os bydd meddyg am ddefnyddio mewnbhaniadau titaniwm a grëwyd yn arbennig nad ydynt wedi'u gorchuddio â meinwe meddal ar gyfer ailffurfio esgyrn yr wyneb, dylai sicrhau y cymerir camau ychwanegol i egluro mai prin yw'r dystiolaeth o ran pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio, yn ogystal â'r ansicrwydd o ran y risgiau posibl, megis haint a chymhlethdodau eraill a allai ddeillio o'r ffaith nad yw'r mewnbhaniad wedi'i orchuddio. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i gael y driniaeth. Dylid rhoi'r ddogfen hon a gwybodaeth ysgrifenedig arall i'r claf fel rhan o'r drafodaeth. Dylid hefyd roi trefniadau arbennig ar waith i fonitro'r hyn sy'n digwydd i'r claf ar ôl y driniaeth.

Mae'n hanfodol mai dim ond i gleifion y mae'n addas ar eu cyfer ac nad oes unrhyw opsiynau triniaeth ailffurfio arall ar gael iddynt y cynigir y driniaeth hon. Dylai llawfeddygon y pen a'r gwddf a llawfeddygon plastig wneud y penderfyniadau hyn.

Ailffurfio esgyrn yr wyneb gan ddefnyddio mewnbhaniadau titaniwm a grëwyd yn arbennig heb eu gorchuddio â meinwe meddal

Yr enw meddygol ar y weithdrefn hon yw 'gosod mewnbhaniadau titaniwm a grëwyd yn arbennig, heb orchudd meinwe meddal, at ddibenion ailffurfio orowynebol'.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma – siaradwch â'ch llawfeddyg i gael disgrifiad llawn.

Mae ailffurfio orowynebol yn driniaeth a ddefnyddir i ailffurfio'r wyneb pan fydd niwed difrifol i'r esgyrn. Mae angen y driniaeth hon fel arfer ar ôl anaf difrifol. Gall fod ei hangen hefyd ar ôl tynnu tiwmorau yn yr wyneb, ac ar gyfer abnormaleddau wynebol sy'n bresennol adeg geni.

Gellir gwneud mewnbhaniadau ar gyfer triniaeth ailffurfio orowynebol allan o rannau o gorff y claf, silicon, titaniwm, hydrocsyapatit (mwyn sy'n debyg i asgwrn dynol), a chyfuniadau o ddeunyddiau gwahanol fel titaniwm wedi'i osod mewn plastig. Gellir hefyd dyfu asgwrn neu ddeunydd tebyg mewn labordy i'w osod yn lle'r esgyrn sydd wedi'u niweidio neu sydd ar goll o'r wyneb.

Y nod wrth ddefnyddio mewnbhaniadau titaniwm yw sicrhau canlyniad cosmetig a gweithredol gwell na mewnbhaniadau traddodiadol. Gwneir union fodel o ysgerbwd y claf, neu ddelwedd gyfrifiadurol 3-dimensiwn. Yna caiff y mewnbaniad titaniwm ei wneud gan ddefnyddio dulliau dylunio a gweithgynhyrchu cyfrifiadurol. Caiff y llawdriniaeth ei chynnal fel arfer gyda'r claf o dan anesthetig cyffredinol. Gosodir y mewnbaniad i mewn i'r asgwrn cyfagos gan ddefnyddio sgriwiau titaniwm.

Yn wahanol i rai triniaethau ailffurfio eraill a ddefnyddir, ni chaiff y mewnbaniad titaniwm ei orchuddio â meinwe meddal ac ni ddisgwylir i feinwe meddal dyfu dros y mewnbaniad dros amser.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os yw eich llawfeddyg wedi cynnig triniaeth i ailffurfio esgyrn yr wyneb gan ddefnyddio mewnbaniadau titaniwm a grëwyd yn arbennig heb eu gorchuddio â meinwe meddal i chi, dylai ddweud wrthyfch fod NICE wedi penderfynu bod y manteision a'r risgiau'n ansicr. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cyflawni'r driniaeth, ond dylai eich llawfeddyg egluro beth mae'r driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Dim ond ar ôl i chi gael y drafodaeth hon y dylid gofyn i chi p'un a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y ddogfen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch llawfeddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny'n berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis cael
y driniaeth hon, cael
triniaeth wahanol,
neu beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar un astudiaeth o 14 o gleifion ac adroddiadau ar dri chlaf arall a gafodd y driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Nododd astudiaeth o 14 o gleifion a gafodd driniaeth i ailffurfio esgyrn yr wyneb ar ôl llawdriniaeth i dynnu tiwmorau yn y pen a'r gwddf fod y driniaeth i ailffurfio rhan uchaf yr ên, un ochr rhan isaf yr ên a'r trwyn wedi bod yn llwyddiannus ac nad oedd angen meinwe meddal i orchuddio'r mewnbaniadau. Ni weithiodd triniaeth i ailffurfio rhan o ran isaf yr ên mewn dau glaf am na thyfodd y meinwe meddal amgylchynol yn ardal y mewnbaniad yn dda. Tynnwyd y mewnbaniad yn achos y ddau glaf a chawsant driniaethau amgen.

Disgrifiwyd golwg tri chlaf fel ardderchog ar ôl y driniaeth (nid yw manylion am olwg yr 11 o gleifion eraill yn hysbys). Ar ôl dwy flynedd, roedd gan bob un o'r 14 o gleifion ansawdd bywyd derbyniol ac nid oedd eu canser wedi dychwelyd.

Yn ogystal ag ystyried yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Nodwyd ganddynt mai prif fesurau llwyddiant y driniaeth yw amseroedd byrrach ar gyfer llawdriniaethau o gymharu â thriniaethau safonol, yr hyd y bydd y mewnbaniadau yn para, pa mor aml y bydd angen tynnu'r sgriwiau a ddefnyddiwyd i osod y mewnbaniadau yn sownd, gostyngiad o ran cyfraddau clefydau a chyfraddau goroesi uwch ar gyfer cleifion â chanser.

Risgiau a phroblemau posibl

Yn yr astudiaeth o 14 o gleifion, torrodd math o fewnbaniad o'r enw THORP (plât ailffurfio sgriw cau wedi'i orchuddio â thitaniwm) drwy groen pob claf a gafodd fewnbaniad wrth ymyl eu boch. Roedd wyth o

gleifion wedi cael mewnbhaniadau THORP ond ni chofnodwyd faint ohonynt a gafodd fewnbhaniadau yn ardal y boch. Mewn un claf, cafodd ei drin drwy osod plât gorchuddio acrylig dros y mewnbhaniad.

Bu'n rhaid tynnu'r mewnbhaniad yn achos un claf yn yr astudiaeth oherwydd haint *Staffylococws awrëws* sy'n gwrthsefyll metisilin (MRSA).

Datblygodd pedwar claf yn yr astudiaeth ffistwlâu (cysylltiadau annormal rhwng ardaloedd sydd fel arfer wedi'u gwahanu gan groen) hyd at ddwy flynedd ar ôl y driniaeth. Cafodd y pedwar eu trin yn llwyddiannus, er bod angen sawl triniaeth ar un claf.

Mewn adroddiadau ar wahân am ddau glaf a gafodd mewnbhaniadau mawr wedi'u gosod er mwyn ailffurfio eu trwyn, daeth y mewnbhaniad i'r golwg yn anfwriadol, a bu'n rhaid cynnal nifer o driniaethau ychwanegol ar y ddau glaf.

Yn ogystal ag ystyried yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Nodwyd ganddynt fod problemau posibl yn cynnwys heintiau sy'n dychwelyd dro ar ôl tro, haint yn yr esgyrn, septicemia posibl (gwenwyn gwaed), yr asgwrn o amgylch y mewnbhaniad yn cael ei dreulio gan y corff, y mewnbhaniad yn dod yn rhydd neu'n dod i'r golwg, golwg gwael, a'r mewnbhaniad yn methu ag ailffurfio'r wyneb.

Rhagor o wybodaeth am ailffurfio esgyrn yr wyneb

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

I gael manylion am holl ganllawiau NICE ar ailffurfio esgyrn yr wyneb, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

NICE

Mae NICE yn darparu canllawiau a chynghor cenedlaethol i wella iechyd a gofal cymdeithasol. Ysgrifennir canllawiau ymyriadau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn holi barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â 'Gosod mewnbaniadau titaniwm agored a grëwyd yn arbennig, heb orchudd meinwe meddal, ar gyfer triniaethau ailffurfio orowynebol cymhleth'. Mae'r ddogfen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn guidance.nice.org.uk/HTG313

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r ddogfen hon yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Care Excellence

Level 1A, City Tower, Piccadilly Plaza, Manchester M1 4BT; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8859-4

N2942 July 2013

© National Institute for Health and Care Excellence, 2013. All rights reserved.

This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.